OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 2615 (Cy.253) (C.82)

# CEFN GWLAD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2002

*Wedi'i wneud - - 15 Hydref 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 103(3) a (4) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2002.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Diwrnod a benodwyd

**2.** 1 Tachwedd 2002 yw'r diwrnod a benodwyd ar gyfer dod ag adrannau 60 a 61 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (cynlluniau gwella hawliau tramwy) i rym mewn perthynas â Chymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

15 Hydref 2002

(**1**) 2000 p.37.
(**2**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dod â rhai darpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ("y Ddeddf") i rym, mewn perthynas â Chymru, ar 1 Tachwedd 2002, sef:

(1) adran 60, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i bob awdurdod priffyrdd lleol i baratoi ac i gyhoeddi cynllun (a adwaenir fel "cynllun gwella hawliau tramwy") o fewn 5 mlynedd ar ôl i'r adran honno ddod i rym ac i adolygu'r cynllun o leiaf unwaith pob 10 mlynedd ac sy'n rhoi pŵ er i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfarwyddyd i'r awdurdod ynglŷn â chynnwys cynllun a'r materion y mae'n rhaid i'r awdurdod eu hasesu wrth baratoi cynllun.

(2) adran 61, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod ymgynghori â chyrff penodedig (a chyda'r personau eraill y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pennu trwy reoliadau) ac sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod ystyried sylwadau a wneir ar gynllun drafft a rhoi sylw i ganllawiau a gyflwynir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Daethpwyd â darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir atynt yn y tabl isod i rym mewn perthynas â Chymru gan Orchmynion Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Adran neu Atodlen* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| 46(1)(b) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 46(3) (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 57 (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 68 | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 70 (2) a (4) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 72 | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Rhan IV (h.y. adrannau 82-93) (ac felly Atodlenni 13, 14 ac 15) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 96 | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| 99 | 30 Ionawr 2001 (Cy.9) (C.10) | O.S. 2001/203 |
| 102 (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Atodlen 4, paragraffau 1, 4, 5 a 6. | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Atodlen 6, paragraff 18(a) ac 19 (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |
| Atodlen 16, Rhannau I a II (yn rhannol) | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |

| *Adran neu Atodlen* | *Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Atodlen 16, Rhannau III, IV, V a VI. | 1 Mai 2001 | O.S. 2001/1410 (Cy.96) (C.50) |